# De Cymru



# Adroddiad Blynyddol
# 2015 - 2016

# Cyflwyniad

## Peter Vaughan. Prif Gwnstabl,

## Heddlu De Cymru



**Mae diogelu aelodau mwyaf bregus ein cymuned yn Ne Cymru yn flaenoriaeth i Heddlu De Cymru. Fodd bynnag, ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain, ac mae gweithio'n agos gyda phartneriaid ymroddedig drwy'r broses MAPPA, er mwyn rheoli troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar yn effeithiol, yn elfen allweddol wrth gyflawni'r nod hwn. Rwy'n ddiolchgar i staff** Heddlu **De Cymru a phartneriaid am weithio'n galed i atal aildroseddu, ond gofynnwn am ymdrech gyson a pharhaus, ar y cyd, i leihau'r risg a achosir gan y troseddwyr hyn ymhellach, a gyda'n gilydd byddwn yn parhau i gadw De Cymru yn ddiogel.**

Peter Vaughan.



## Simon Boddis.

## Cyfarwyddwr NOMS yng Nghymru

**Croeso i Adroddiad Blynyddol MAPPA ar gyfer 2015/16. Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. (MAPPA) yng De Cymru.**

**Sicrhau bod ein cymunedau'n fwy diogel yw blaenoriaeth uchaf NOMS yng Nghymru, ac mae'r gwaith a wneir drwy MAPPA o bwysigrwydd allweddol i gyflawni hyn. Nid yw byth yn bosibl dileu risg yn llwyr, ond yr hyn a ddisgwylir yw bod**

**yr holl gamau rhesymol yn cael eu cymryd i leihau'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd gan droseddwyr hysbys. All yr un asiantaeth unigol wneud hyn ar ei phen ei hun ac mae o bwys allweddol fod asiantaethau'n dal i gefnogi a chyfrannu at broses MAPPA. Mae NOMS yng Nghymru'n gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau i gyfnewid gwybodaeth, arbenigedd**

ac adnoddau o dan MAPPA, sy'n ein galluogi i adnabod, asesu a rheoli'r troseddwyr rhyw a threisgar hynny sy'n achosi'r risg mwyaf i'n cymunedau lleol.

Caiff gwaith MAPPA yng Ngogledd Cymru/Gwent/Dyfed Powys/De Cymru ei oruchwylio gan Fwrdd Rheoli Strategol ac mae ei aelodau'n cynnwys uwch reolwyr o bob asiantaeth sy'n cymryd rhan fel arfer mewn cyfarfodydd MAPPA. Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi ymrwymo'n llawn i'r egwyddor fod ein hasiantaethau'n gallu diogelu'r cyhoedd yn effeithiol os gweithiwn gyda'n gilydd.

Drwy gyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn mae cyfle i MAPPA fod yn atebol i'r gymuned leol gan ddarparu gwybodaeth ynglŷn â pha gamau sy'n cael eu cymryd i wella effeithiolrwydd MAPPA. Gobeithio y bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn addysgiadol ac o gymorth i ddeall sut mae asiantaethau drwy Gymru'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddiogelu'r cyhoedd yn well.



# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

(a) Mae MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) yn gyfres o drefniadau i reoli'r risg a achosir gan y troseddwyr rhyw a'r troseddwyr treisgar mwyaf difrifol (Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA) yn unol ag adrannau 325 i 327B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

(b) Maent yn dod â'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd, gan greu'r hyn a elwir yn Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

(c) Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaethau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, y Ganolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Tai ac Addysg Lleol.

(d) Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar y Bwrdd Rheoli Strategol ym mhob ardal MAPPA ochr yn ochr ag uwch gynrychiolwyr o bob un o'r asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu â'r Awdurdod Cyfrifol.

(e) Mae'r Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd sydd â dim cysylltiad â'r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ond sy'n gweithredu fel sylwedyddion annibynnol ond gwybodus; gallant ofyn cwestiynau efallai na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud yn agos â'r gwaith yn meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u safbwyntiau am y gymuned leol i'r Bwrdd Rheoli Strategol (rhaid iddynt fod yn byw yn y cymunedau hynny a rhaid iddynt fod â chysylltiadau cryf â hwy).

## Sut mae MAPPA yn gweithio

- Bydd troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn cael eu nodi a bydd gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu gan yr asiantaethau er mwyn helpu'r rhai sy'n rheoli neu'n goruchwylio'r troseddwyr hyn i wneud asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg.

- Yn y mwyafrif o achosion, dyna pa mor bell y mae MAPPA yn mynd, ond mewn rhai achosion penderfynir bod angen dull rheoli gweithredol, amlasiantaethol. Mewn achosion o'r fath cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd ar gyfer ymarferwyr yr asiantaethau perthnasol.

- Mae 3 categori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA: **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig; **Categori 2** – (yn bennaf) troseddwyr treisgar sydd wedi'u dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy; **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategorïau 1 neu 2 ond sy'n peri risg o niwed difrifol.

- Ceir tair lefel reoli er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n canolbwyntio ar yr achosion lle mae eu hangen fwyaf; y rhai sydd â risg uwch o niwed difrifol fel arfer. Mae **Lefel 1** yn cynnwys rheolaeth arferol gan asiantaeth (h.y. dim cyfarfodydd nac adnoddau MAPPA); â **Lefel 2** bydd angen ymyriad gan fwy nag un asiantaeth er mwyn rheoli'r troseddwr, ond nid yw'r cynlluniau rheoli risg yn nodi bod angen presenoldeb nac ymrwymiad adnoddau gan swyddogion uwch. Pe bai angen goruchwyliaeth uwch byddai'r achos yn cael ei reoli ar **Lefel 3**.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR - system TG genedlaethol ar gyfer rheoli pobl sy'n achosi risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae'r heddlu'n defnyddio ViSOR er 2005, ond ym mis Mehefin 2008 daeth ViSOR yn gwbl weithredol, a bellach gall staff allweddol o'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai ddefnyddio'r un system TG. Mae hyn wedi helpu i wella ansawdd ac amseriad asesiadau risg ac ymyriadau er mwyn atal troseddu. Mae defnyddio ViSOR ar y cyd wedi cynyddu'r gallu i rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau, ac mae'n golygu bod modd trosglwyddo gwybodaeth bwysig yn ddiogel pan fo'r troseddwyr risg uchel hyn yn symud, gan wella camau i amddiffyn y cyhoedd. Cyhoeddir holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr ar-lein yn: www.justice.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA (ar 31 Mawrth 2016) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 1339 | 312 | - | 1651 |
| Lefel 2 | 49 | 38 | 10 | 97 |
| Lefel 3 | 2 | 2 | 2 | 6 |
| Cyfanswm | 1390 | 352 | 12 | 1754 |

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 136 | 197 | 28 | 361 |
| Lefel 3 | 4 | 12 | 13 | 29 |
| Cyfanswm | 140 | 209 | 41 | 390 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr rhyw cofrestredig a gafodd rybudd neu a gafwyd yn euog o dorri gofynion hysbysu** | 5 |

| | |
|---|---|
| **RSOs who have had their lifetime notification revoked on application** | 4 |

| Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw, Gorchmynion Hysbysu a Gorchmynion Teithio Dramor a orfodwyd gan y llysoedd** | |
| Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw | 137 |
| Gorchmynion Hysbysu | 0 |
| Gorchmynion Teithio Dramor | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu ar ôl torri Gorchymyn Perygl Rhywiol** | 0 |

| **Troseddwyr Lefel 2 a 3 a anfonwyd yn ôl i'r ddalfa** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri amodau trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 5 | 27 | 1 | 33 |
| Lefel 3 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Cyfanswm | 5 | 28 | 2 | 35 |
| **Torri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw** | | | | |
| Lefel 2 | 0 | - | - | 0 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 0 | - | - | 0 |
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | | | | 120 |

Cyfrifwyd y swm hwn gan ddefnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2015: Blwyddyn Unigol ar sail oedran a rhyw ar gyfer Ardaloedd yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl, wedi'i gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 23 Mehefin 2016, ac eithrio'r rhai sy'n iau na deng mlwydd oed.

# Sylwadau i egluro'r ystadegau yn y tablau

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2014 (h.y. ciplun). Mae gweddill y data yn ymwneud â'r cyfnod o 1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2014.

**(a) Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA** – Mae nifer o droseddwyr yn cael eu hystyried gan y gyfraith fel rhai sy'n gymwys i gael eu rheoli dan drefniadau MAPPA oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw neu droseddau treisgar penodol neu bod risg iddynt achosi niwed difrifol ar hyn o bryd, er bod y rhan fwyaf ohonynt (82.55% eleni) yn cael eu rheoli mewn gwirionedd dan drefniadau asiantaeth arferol (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPP.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig** – Troseddwyr rhyw sy'n gorfod hysbysu'r heddlu o'u henwau, eu cyfeiriad a manylion personol eraill a'u hysbysu hefyd ynglŷn ag unrhyw newidiadau wedi hynny (cyfeirir at hyn fel "gofyniad hysbysu"). Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd a allai arwain at ddedfryd o garchar am hyd at 5 mlynedd.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – Mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar sydd wedi cael dedfryd o garchar neu gadw yn y ddalfa am 12 mis neu fwy, neu gadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i fod ar y gofrestr a throseddwyr sydd wedi cael eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – Troseddwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y ddau gategori MAPPA arall, ond sydd ar hyn o bryd yn achosi risg ddifrifol o niwed, y mae angen eu rheoli drwy gyfarfodydd MAPP.

**(e) Torri amodau trwydded** – bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned yn dilyn cyfnod o garchar o 12 mis neu fwy yn cael trwydded ag amodau yn perthyn iddi (dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os na fyddant yn cydymffurfio â'r amodau hyn cymerir camau gweithredu mewn perthynas â thorri amodau a gallai'r troseddwr gael ei alw'n ôl i'r carchar.

**(f) Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw** – Gall llys wneud Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw pan fydd yn ymdrin â throseddwyr rhyw penodol neu pan fydd yr heddlu'n gwneud cais arbennig o ganlyniad i ymddygiad y troseddwr yn y gymuned. Mae'r gorchymyn llawn yn para am o leiaf bum mlynedd, a gall fod yn barhaol. Dan Orchymyn Atal Troseddau Rhyw bydd yn ofynnol i'r unigolyn gofrestru fel troseddwr rhyw a gall gynnwys amodau, er enghraifft er mwyn atal y troseddwr rhag loetran wrth ysgolion neu gaeau chwarae. Os na fydd y troseddwr yn cydymffurfio â gofynion y gorchymyn (h.y. os bydd yn torri'r amodau) gellir mynd ag ef yn ôl i'r llys a gallai gael dedfryd o garchar am hyd at bum mlynedd.

**(g) Gorchymyn Hysbysu** – Mae'r gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr rhyw sydd wedi cael eu collfarnu dramor gofrestru gyda'r heddlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig rhag y risgiau y maent yn eu hachosi. Gall yr heddlu wneud cais i'r llys am orchymyn hysbysu mewn perthynas â throseddwyr sydd eisoes yn y Deyrnas Unedig neu sy'n bwriadu dod i'r Deyrnas Unedig.

**(h) Gorchymyn Perygl Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ychwanegol o ran teithio tramor)** Disodlodd y Gorchymyn Perygl Rhywiol (GPRh) y Gorchymyn Perygl Niwed Rhywiol (GPNRh) a gellir ei wneud mewn perthynas â pherson sydd heb ei euogfarnu ar gyfer trosedd rywiol neu dreisgar, ond sy'n cyflwyno perygl o niwed rhywiol.

Gellir gwneud y GPRh yn y llys ynadon ar gais, gan yr heddlu neu'r ATC, pan mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod y person yn cyflwyno perygl o niwed i'r cyhoedd yn y DU neu blant neu unigolion bregus tramor.

Gall GPRh wahardd y person rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo - mae hyn yn cynnwys atal teithio tramor. Rhaid bod unrhyw waharddiad yn ofynnol er mwyn diogelu'r cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol neu, mewn perthynas â theithio tramor, diogelu plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Disgwylir i unrhyw unigolyn sy'n destun GPRh hysbysu'r heddlu am ei enw a'i gyfeiriad cartref o fewn tri diwrnod ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, a hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon fewn tri diwrnod.

Gall GPRh bara am leiafswm o ddwy flynedd, ac nid oes hyd pennaf, gan eithrio unrhyw gyfyngiadau o ran teithio tramor sydd, os yn berthnasol, yn para am uchafswm o 5 mlynedd (ond gellir adnewyddu hyn).

Mae'r safon brofi droseddol dal yn berthnasol, mae'r person dan sylw dal yn medru apelio yn erbyn y gorchymyn, ac mae'r heddlu neu'r person dan sylw yn medru gwneud cais am i'r gorchymyn gael ei amrywio, ei adnewyddu neu ei ryddhau.

Mae torri GPRh yn dramgwydd troseddol, sydd â chosb uchaf o 5 mlynedd o garchar. Pan mae unigolyn yn torri ei GPRh, byddant yn ddarostyngedig i ofynion llawn yr hysbysiad.

Bellach, mae unigolion sy'n destun GPRh yn cael eu cofnodi ar VISOR, fel Person Peryglus Posibl (PPP).

### (i) Gofynion hysbysu gydol oes a ddiddymir ar gais

**Newid yn y ddeddfwriaeth o ran troseddwyr rhywiol** Mae her gyfreithiol yn 2016 ac ymateb deddfwriaethol cyfatebol yn golygu bod mecanwaith bellach mewn grym a fydd yn galluogi **troseddwyr rhyw cymwys i wneud cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu.**

Bydd unigolion sy'n destun hysbysiad amhendant ond yn gymwys i geisio adolygiad pan fyddant wedi bod yn destun gofyniad hysbysu amhendant am gyfnod o 15 mlynedd o leiaf ar gyfer oedolion ac 8 mlynedd ar gyfer ieuenctid. Mae hyn yn berthnasol o 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

Ar 21 Ebrill 2010, yn achos *R (ar gais F ac Angus Aubrey Thompson) yn erbyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref [2010] UKSC 17*, cadarnhaodd y Goruchaf Lys benderfyniad cynharach y Llys Apêl gan wneud datganiad o anghytundeb o dan a. 4 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 mewn perthynas â gofynion hysbysu am gyfnod amhendant o dan adran 82 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.
Mae hyn wedi'i unioni yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Troseddau Rhywiol (Adfer) 2012 sydd wedi cyflwyno'r cyfle i droseddwyr sy'n destun hysbysiad amhendant i geisio adolygiad; deddfwyd hyn ar 30 Gorffennaf 2012.

Ni fydd unigolion yn dod oddi ar y rhestr yn awtomatig. Disgwylir i droseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu yn ceisio adolygiad o'u gofynion hysbysu amhendant. Bydd hyn ond yn digwydd unwaith y byddant wedi cwblhau'r cyfnod amser lleiaf sy'n ddarostyngedig i'r gofynion hysbysu (15 mlynedd o adeg yr hysbysiad cyntaf ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa ar gyfer y drosedd indecs i oedolion ac 8 mlynedd ar gyfer ieuenctid).

Bydd y rhai sydd dal yn cyflwyno perygl sylweddol yn parhau ar y gofrestr am oes, os oes angen. Os yw troseddwr yn destun Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol, rhaid i'r gorchymyn gael ei ryddhau o dan adran 108 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 cyn cais am adolygiad o'u gofynion hysbysu amhendant.

Am ragor o wybodaeth, gweler adran y Swyddfa Gartref o wefan gov.uk:
https://www.gov.uk/government/publications/sexual-offences-act-2003-remedial-order-2012

# Pwy ydym ni:

## Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA, Ardal De Cymru

**Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn gyfrifol am reoli gweithgareddau MAPPA yn ei ardal. Bydd hyn yn cynnwys adolygu ei weithrediadau er mwyn sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd a chynllunio sut i weithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol, canllawiau cenedlaethol neu newidiadau cyfiawnder troseddol ehangach. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r pŵer i roi arweiniad i'r Awdurdod Cyfrifol ar gyflawni ei swyddogaethau o dan MAPPA. Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn gyfrifol am weithredu Canllawiau MAPPA yn ei ardal, yn unol â chynlluniau a blaenoriaethau lleol.**

## Cyd-gadeiryddion:

| | |
|---|---|
| Jon Drake | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru |
| Eirian Evans | Prif Weithredwr Cynorthwyol Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Mitch Albut | Llywodraethwr Carchar Caerdydd |

## Aelodau:

| | |
|---|---|
| Alison Lewis | G4S / Carchar y Parc |
| Alys Jones | Cyngor Bro Morgannwg |
| Andrea Chichester | EMS |
| Anne Batley | Gwasanaethau Plant, CBS Rhondda Cynon Taf |
| Barbara Ranger | Heddlu De Cymru |
| Caroline Dyer | Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc Bae'r Gorllewin |
| Chris Fox | Cyngor Dinas Caerdydd |
| Ffion Larsen | Dinas a Sir Abertawe |
| Helen O'Sullivan | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Huw Thomas | Y Ganolfan Byd Gwaith |
| Jane Randall | BIP Cwm Taf |
| Jayne Tottle | BIP Caerdydd a'r Fro |
| Lian Penhale | Heddlu De Cymru |
| Lynda Williams | BILI Cwm Taf |
| Nigel Rees | Cydlynydd MAPPA |
| Rhian Davies | CAFCASS |
| Ruth Bagshaw | BIP Abertawe Bro Morgannwg |
| Ruth McCann | G4S / Carchar y Parc |
| Sara Theaker | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Stuart Mander | Gwalia |
| Tony Young | Gwasanaethau Plant, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |
| Cynghorydd Lleyg x 2 | Swydd wag |

# Cysylltwch â ni:

## Cydlynydd MAPPA:

**Nigel Rees**

Uned ViSOR MAPPA,

Adran Amddiffyn y Cyhoedd,

Pencadlys Heddlu De Cymru,

Pen-y-bont ar Ogwr.

CF31 3SU

Ff: 01656 306043

e: nigel.rees@south-wales.pnn.police.uk
nigel.rees@probation.gsi.gov.uk

ebost ar gyfer ymholiadau cyffredinol:
vmuswpa@wales.probation.gsi.gov.uk

## Carchardai

**Darren Hughes**

Llywodraethwr

Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd

Knox Road

Caerdydd

CF24 0UG

Ff: 02920 923100

e: darren.hughes@noms.gsi.gov.uk

## Heddlu De Cymru:

**Ditectif Uwch-arolygydd Lian Penhale**

Troseddau Arbenigol, Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd

Adran Amddiffyn y Cyhoedd,

Pencadlys Heddlu De Cymru,

Pen-y-bont ar Ogwr

CF31 3SU

Ff: 01656 869434

e: lian.penhale@south-wales.pnn.police.uk

## Y Gwasanaeth Prawf

**Eirian Evans**

Prif Weithredwr Cynorthwyol

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Swyddfa Prawf

4-9 The Broadway

Pontypridd

CF37 1BA

Ff: 01443 494338

e: eirian.evans@probation.gsi.gov.uk

Cyhoeddir holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr ar-lein yn:

www.justice.gov.uk

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
National Probation Service

HM PRISON SERVICE

SOUTH WALES POLICE
HEDDLU DE CYMRU